



Swansea University  
Prifysgol Abertawe

## NEWS RELEASE

16 March 2015

### Minister attends Swansea University to see students get inspired by Maths



Huw Lewis, AM, Minister for Education and Skills has visited Swansea University to see pupils be inspired at the Further Maths Support Programme (FMSP) Wales Year 10 Conference organised by The Wales Institute of Mathematical and Computational Sciences (WIMCS).

The Conference, attended by 200 students from local schools took place at Swansea University on Thursday 12 March.

Mr Lewis was greeted by Swansea University Vice-Chancellor, Professor Richard B Davies who accompanied him to two of the workshops organised on the day.

Huw Lewis said: "Maths is a key skill for life and highly valued by employers. That's why we are investing in the Further Maths Support programme.

"It was great to visit the Wales Institute of Mathematical and Computational Sciences at Swansea University and see the work they are doing on the programme. I was really struck by the enthusiasm of all the students I met. I hope the event has encouraged them to consider continuing studying Maths beyond GCSE level.

“Indeed, it is recognised that an A/AS level in Further Mathematics enables students to be better prepared for studying Mathematics in their first year at university and opens doors to well paid, high value STEM (science, technology, engineering and mathematics) careers”.

Professor Richard B Davies said: “We have been delighted to welcome Huw Lewis today to showcase the work carried out by the Wales Institute of Mathematical and Computational Sciences and to demonstrate that this Welsh Government funded programme is going from strength to strength.”

“There is a chronic shortage of people who have higher level mathematical skills and this is evident in the higher salaries offered in careers varying from Actuaries to Engineers. It is therefore vital that we foster an understanding of Mathematics in students at GCSE level so that they can be encouraged to consider Maths as an option in their further education.

“The Further Maths Support Programme presents Mathematics as a fascinating and appealing further education option. This is evident from the feedback received from the students who attended today.”



Dr Sofya Lyakhova, FMSP Wales Programme Leader said: “Student conferences are a very important part of the FMSP Wales programme as they not only promote studying Mathematics beyond GCSE level but also give insight into various careers and application of Maths.

“The workshops students saw today covered very pure areas of Maths such as golden ratio and infinite sets as well as mathematics modelling of the spread of diseases. Students saw examples of how a small task can be enhanced by using Mathematics. There were

plenty of competitions and quizzes but at the end everyone was a winner as we all learned some new mathematics. Let Maths take you further!

“Mathematics is very beautiful and challenging but is also very practical and leads to some exciting careers. Student conferences contribute to widening students horizons and we hope for some of them this may be a life changing experience.”

#### **Notes for Editors:**

- The Wales Institute of Mathematical and Computational Sciences (WIMCS) is a collaborative partnership of the universities of Aberystwyth, Bangor, Cardiff, South Wales and Swansea. It has been set up by the Welsh Government through the Higher Education Funding Council for Wales. WIMCS aims to enhance the standing of mathematics and computation in Wales, to foster links with industry, commerce and business, to generate substantial research funding and to provide a forum for education and public awareness of the Mathematical Sciences ([www.wimcs.ac.uk](http://www.wimcs.ac.uk)).
- **Swansea University** is a world-class, research-led university located in beautiful parkland with views across Swansea Bay close to the Gower Peninsula, the UK's first Area of Outstanding Natural Beauty.

The University was established in 1920 and currently offers around 330 undergraduate courses and 120 post-graduate courses to 16,800 undergraduate and postgraduate students.

The results of the Research Excellence Framework (REF) 2014 showed that the University has achieved its ambition to be a top 30 research University, soaring up the league table to 26th in the UK, with the 'biggest leap among research-intensive institutions' (*Times Higher Education*, December 2014) in the UK.

In September 2015, the University's new £450m, 65 acre science and innovation Bay Campus will open, to complement an upgraded Singleton Park Campus.

Visit [www.swansea.ac.uk](http://www.swansea.ac.uk). *Swansea University is a registered charity. No. 1138342.*

**For more information contact Mari Hooson, Swansea University Public Relations Office, Tel: 01792 513455, or email: [m.hooson@swansea.ac.uk](mailto:m.hooson@swansea.ac.uk).**



Swansea University  
Prifysgol Abertawe

## DATGANIAD I'R WASG

16 Mawrth 2015

### **Gweinidog yn mynychu Prifysgol Abertawe i weld myfyrwyr yn cael eu hysbrydoli gan Fathemateg**



Bu Huw Lewis, AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ymweld â Phrifysgol Abertawe i weld disgyblion yn cael eu hysbrydoli yng Ngynhadledd Blwyddyn 10 Rhaglen Gymorth Mathemateg Cymru (FMSP) wedi'i drefnu gan y Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru (WIMCS).

Cynhalwyd y Gynhadledd, a fynychwyd gan 200 o fyfyrwyr o ysgolion lleol ym Mhrifysgol Abertawe ar ddydd Iau 12 Mawrth.

Cyfarchwyd Mr Lewis gan Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe, yr Athro Richard B Davies, a aeth gydag ef i ddau o'r gweithdai a drefnwyd ar y diwrnod.

Dyweddodd Huw Lewis: "Mae Mathemateg yn sgil allweddol ar gyfer bywyd ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr. Dyna pam ein bod yn buddsoddi yn Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach.

"Roedd yn wych i ymweld â'r Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol ym Mhrifysgol Abertawe a gweld y gwaith y maent yn ei wneud ar y rhaglen. Cefais fy nharo gan frwdfrydedd yr holl fyfyrwyr wnes i gyfarfod. Rwy'n gobeithio bod y

digwyddiad wedi eu hannog i ystyried parhau i astudio Mathemateg y tu hwnt i lefel TGAU.

"Yn wir, cydnabyddir bod Mathemateg Safon AS/Uwch mewn Mathemateg Bellach yn galluogi myfyrwyr i fod yn fwy parod ar gyfer astudio Mathemateg yn eu blwyddyn gyntaf yn y brifysgol ac yn agor drysau i yrfaeodd STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) sy'n talu'n dda ac o werth uchel".

Dywedodd yr Athro Richard B Davies: "Rydym yn falch iawn o groesawu Huw Lewis heddiw i ddangos y gwaith a wneir gan y Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol ac i ddangos bod y rhaglen hon a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn mynd o nerth i nerth."

"Mae yna brinder difrifol o bobl sydd â sgiliau mathemategol ar lefel uwch ac mae hyn yn amlwg yn y cyflogau uwch a gynigir mewn gyrfaoedd yn amrywio o Actiwariadaid i Beirianwyr. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn meithrin dealltwriaeth o Fathemateg i fyfyrwyr ar lefel TGAU fel y gellir eu hannog i ystyried Mathemateg fel opsiwn yn eu haddysg bellach.

"Mae'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach yn cyflwyno Mathemateg fel dewis addysg bellach diddorol ac apelgar. Mae hyn yn amlwg o'r adborth a gafwyd gan y myfyrwyr a oedd yn bresennol heddiw."



Dywedodd Dr Sofya Lyakhova, Arweinydd Rhaglen FMSP Cymru: "Mae cynadleddau myfyrwyr yn rhan bwysig iawn o raglen FMSP Cymru gan eu bod nid yn unig yn hyrwyddo astudio Mathemateg y tu hwnt i TGAU, ond hefyd yn rhoi cipolwg ar wahanol yrfaeodd a chymhwyso mewn Mathemateg.

"Gwelodd y myfyrwyr weithdai heddiw oedd yn cynnwys meysydd Mathemateg pur iawn megis y gymhareb aur a setiau anfeidrol, yn ogystal â modelu mathemateg o ymlediad clefydau.

Gwelodd myfyrwyr enghreifftiau o sut y gall tasg bychan gael ei wella drwy ddefnyddio Mathemateg. Roedd digon o gystadlaethau a chwisiau ond ar y diwedd roedd pawb yn enillydd wrth i ni i gyd ddysgu rywfaint o fathemateg newydd. Gadewch i Fathemateg fynd â chi ymhellach!

“Mae Mathemateg yn brydferth iawn ac yn heriol ond mae hefyd yn ymarferol iawn ac yn arwain at rai gyrfaoedd cyffrous. Mae cynadleddau Myfyrwyr yn cyfrannu at ehangu gorwelion myfyrwyr ac rydym yn gobeithio i rai ohonynt gall hwn fod yn brofiad sy'n newid bywyd.”

## Nodiadau i Olygyddion

- Mae Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiannol Cymru (WIMCS) yn bartneriaeth gydweithredol o brifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe. Mae wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae WIMCS yn anelu at wella statws mathemateg a chyfrifiant yng Nghymru, i faethu cysylltiadau gyda diwydiant, masnach a busnes, i gynhyrchu cyllid ymchwil sylweddol ac i ddarparu fforwm ar gyfer addysg ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Gwyddorau Mathemategol ([www.wimcs.ac.uk](http://www.wimcs.ac.uk)).
- Mae **Prifysgol Abertawe** yn brifysgol byd-eang, a arweinir gan ymchwil wedi ei leoli mewn parcdir prydferth gyda golygfeydd ar draws Bae Abertawe yn agos i Benrhyn Gŵyr, Ardal gyntaf y DU o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Sefydlwyd y Brifysgol ym 1920 ac ar hyn o bryd mae'n cynnig tua 330 o gyrsiau israddedig a 120 o gyrsiau ôl-raddedig i 16,800 o fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig.

Mae canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014 yn dangos bod y Brifysgol wedi cyflawni ei uchelgais i fod yn y 30 uchaf o Brifysgolion ymchwil, yn hedfan i fyny'r tabl cynghrair i 26 yn y DU, gyda'r 'naid fwyaf ymhlith sefydliadau ymchwil-ddwys' (Times Higher Education, Rhagfyr 2014) yn y DU.

Ym mis Medi 2015, bydd Campws gwyddoniaeth ac arloesedd newydd £450m y Bae y Brifysgol yn agor i gyd-fynd â uwchraddio Campws Parc Singleton.

Ewch i [www.swansea.ac.uk](http://www.swansea.ac.uk). Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig. Rhif 1,138,342.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Mari Hooson, Swyddfa Cysylltiadau Cyhoeddus Prifysgol Abertawe, Ffôn: 01792 513455, neu e-bostiwch: [m.hooson@swansea.ac.uk](mailto:m.hooson@swansea.ac.uk)



Dilynwch ni ar Twitter: [@SwanseaUni](https://twitter.com/SwanseaUni)



Dewch o hyd i ni ar Facebook: <https://www.facebook.com/swanseauniversity>